Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Gareth Jenkins
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Dyddiad: 29 Ionawr 2026

Annwyl Gareth Jenkins,

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd o Wasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 17 a 19 Tachwedd 2025. Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) a'r safonau ansawdd yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau. Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf 2014 ac yn ceisio ateb y cwestiynau isod:

### Llinellau Ymholi Allweddol:

### Pobl – llais a rheolaeth

1. *I ba raddau y mae pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.*

2. *I ba raddau y mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu sefydlog, cynaliadwy, cymwys, hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir*

**Atal**

1. *I ba raddau y mae'r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl.*
2. *Pa mor effeithiol y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y galw, yn rheoli pwysau ar wasanaethau, ac yn addasu modelau atal er mwyn diwallu anghenion newidiol y boblogaeth gyfan.*

**Llesiant**

1. *I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff pobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o* niwed?

2. *Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod y trefniadau diogelu yn amserol, yn gymesur, ac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson gan asiantaethau?*

3. *Sut y caiff y gwersi a ddysgwyd o weithgareddau diogelu eu defnyddio i wella ymarfer a chanlyniadau i blant?*

**Partneriaethau**

1. *I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i blant a theuluoedd?*

2. *Pa mor dda y caiff trefniadau llywodraethu ar y cyd a gwaith cyd-gynllunio eu defnyddio i gysoni blaenoriaethau a gwella'r gwasanaeth a gaiff ei ddarparu.*

## 2. Terminoleg a Diffinio Ansawdd

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

## 3. Crynodeb o archwiliad sicrwydd

**3.1** Mae Gwasanaethau Plant Caerffili yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu cymorth seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn rhannu gweledigaeth glir ac yn cydweithio i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol, gyda gweithlu sefydlog a chefnogol sy'n sail i'r gwasanaethau a ddarperir. Caiff pobl eu trin ag urddas a pharch, ac mae ffocws cyson ar nodi llais plant a theuluoedd wrth asesu a chynllunio.

**3.2** Mae prosesau ymyrryd yn gynnar ac atal ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth, wedi'u hategu gan waith amlasiantaethol effeithiol a diwylliant o welliant parhaus. Mae ymarferwyr yn nodi anghenion sy'n codi yn gynnar ac yn gweithio mewn ffordd ragweithiol gyda theuluoedd i atal achosion rhag

gwaethygu. Mae'r awdurdod yn addasu ei fodelau ataliol mewn ymateb i'r gwersi a ddysgwyd ac adborth, ac mae tystiolaeth bod cynlluniau wrth gefn cadarn ar waith i reoli pwysau ar wasanaethau.

**3.3** Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae staff o bob lefel yn ei ddeall yn dda. Mae ymarferwyr yn rhagweithiol, yn cael eu cefnogi'n dda ac yn fedrus wrth reoli risg, ac mae'r trefniadau amlasiantaethol yn cefnogi ymatebion amserol a chymesur i bryderon diogelu. Mae'r awdurdod yn ymrwymedig i hybu llesiant ehangach plant a theuluoedd, ac mae amrywiaeth o ymyriadau ar waith i gefnogi canlyniadau cadarnhaol.

**3.4** Er bod y broses cynllunio sefydlogrwydd yn gadarn ar y cyfan, nodwyd oedi y gellid bod wedi'i osgoi ar gyfer nifer bach iawn o blant. Mae'r awdurdod lleol yn atgyfnerthu'r broses oruchwylio yn y maes hwn ac yn cymryd camau i wella amseroldeb trafodaethau strategaeth ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol.

**3.5** Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder amlwg, gyda strwythurau llywodraethu clir ac ethos a rennir mewn perthynas â diogelu a hybu llesiant plant. Mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol wrth gasglu adborth gan bartneriaid, plant a theuluoedd ac ymateb iddo, ac mae pwyslais cryf ar ddatrys problemau ar y cyd ac atebolrwydd a rennir. Mae'r broses rhannu gwybodaeth a chyfathrebu rhwng asiantaethau yn effeithiol ar y cyfan, ond mae angen atgyfnerthu cysondeb y broses ymgysylltu â phartneriaid a'r trefniadau ar gyfer rhannu adroddiadau mewn modd amserol.

## 4. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Pobl

### <u>Cryfderau</u>

**4.1** Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn rhoi dull seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith, gan hyrwyddo annibyniaeth a llais pobl. Roedd y mwyafrif o'r bobl a gwblhaodd arolwg AGC a ddosbarthwyd fel rhan o'r arolygiad hwn yn teimlo bod eu gweithwyr cymdeithasol yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi. Mae ymarfer a gaiff ei lywio gan ymchwil yn cefnogi gwaith uniongyrchol gyda phobl, gan gynnwys dulliau amlddisgyblaethol ar gyfer ymyriadau sy'n ystyriol o drawma. Defnyddir adnoddau fel ‘straeon cymdeithasol’ er mwyn helpu i sicrhau dealltwriaeth ac addasu cynlluniau yn unol ag anghenion unigol. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

**4.2** Mae arweinwyr ar bob lefel yn cyfathrebu gweledigaeth glir a chyson ar gyfer y gwasanaethau plant. Mae ymarferwyr yn deall blaenoriaethau'r gwasanaeth ac yn cydweithio i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl.

**4.3** Caiff pobl eu trin ag urddas a pharch. Mae lleisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd yn amlwg mewn nifer o gofnodion. Mae ymarferwyr yn cynnal cyswllt cymesur ac yn cofnodi profiad bywyd plant a theuluoedd fel mater o drefn, gan addasu dulliau cyfathrebu yn unol ag anghenion unigol, gan gynnwys ar gyfer y rhai ag anableddau. Ceir enghreifftiau lle mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' a gafwyd gyda phobl wedi'u cofnodi mewn cynlluniau gofal a chymorth yn naratif y person cyntaf. Mewn rhai achosion, nid yw lleisiau unigol plant ifanc iawn a phlant sy'n rhan o grwpiau mwy o frodyr a chwiorydd yn cael eu hadlewyrchu'n glir wrth gynllunio gofal a chymorth. **Dylai'r awdurdod lleol atgyfnerthu ei ddull ymhellach er mwyn sicrhau bod llais pob plentyn yn cael ei nodi a'i fod yn llywio cynlluniau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.**

**4.4** Er bod y rhan fwyaf o'r gweithlu yn sefydlog, mae trosiant o ran rhai ymarferwyr rheng flaen a gall recriwtio fod yn heriol. Mae strategaethau recriwtio a chadw ar waith, gan gynnwys y fenter lwyddiannus 'tyfu eich hun'. Mae canfyddiadau o'r arolwg ymarferwyr yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan y rheolwyr, a dywedwyd bod y trefniadau goruchwylio yn fyfyriol ac yn ddefnyddiol. Mae cymorth ac arweiniad ar gael yn gyson, ac mae adborth a gafwyd yn yr arolwg yn nodi bod trefniadau gweithio cydweithredol cryf ar waith i sicrhau gweledigaeth a rennir i wella gwasanaethau.

**4.5** Mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol wrth gynnig gwasanaeth Cymraeg. Mae ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael, ac mae gwasanaethau cyfieithu yn rhoi cymorth i deuluoedd sy'n siarad ieithoedd eraill, gan sicrhau cyfathrebu cynhwysol ac effeithiol.

**4.6** Caiff cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eu hystyried wrth reoli achosion a goruchwylio. Mae Rheolwyr Tîm ac Uwch-reolwyr yn adolygu llwythi achosion yn rheolaidd gan roi sylw i amgylchiadau unigol, a defnyddir trefniadau gweithio hyblyg i gefnogi llesiant staff. Mae'r arolwg ymarferwyr a thystiolaeth o ddarllen ffeiliau yn dangos bod cymhlethdod anghenion ac ystyriaethau diwylliannol yn cynyddu, ac mae hyn yn gofyn am ymarfer cyson a hyderus ym mhob un o'r timau. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i wella'r hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael i sicrhau bod pob aelod o staff yn meddu ar y gallu i ddiwallu anghenion cynyddol amrywiol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.**

**4.7** Mae'n amlwg bod pob tîm yn cael ei oruchwylio a'i reoli'n dda. Dywedodd ymarferwyr bod rheolwyr yn weladwy, yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt, ac mae'r sesiynau goruchwylio rheolaidd yn gyfle iddynt fyfyrio ar ymarfer, datblygiad proffesiynol a llesiant. Mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r

penderfyniadau a wneir mewn perthynas â diogelu a cheir cyfleoedd pellach i fyfyrio ar ymarfer drwy gyfarfodydd tîm a thrafodaethau pod. Mewn rhai achosion, nid oedd penderfyniadau wedi'u cofnodi'n glir ar y system rheoli achosion, sy'n cyfyngu ar welededd i reolwyr ac yn lleihau'r sicrwydd bod prosesau goruchwylio cyson ar waith. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cael eu cofnodi fel mater o drefn a'u bod i'w gweld yn glir ar y system cofnodi electronig er mwyn cefnogi prosesau goruchwylio effeithiol a sicrhau atebolrwydd.**

**Atal**

**Cryfderau**

**4.8** Mae dulliau ymyrryd yn gynnar ac atal ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant ac maent yn un o gryfderau amlwg y gwasanaeth. Mae ymarferwyr yn nodi anghenion sy'n codi yn gynnar ac yn gweithio mewn ffordd ragweithiol gyda theuluoedd i atal achosion rhag gwaethygu. Cynhelir asesiadau a chaiff cymorth amserol ei ddarparu. Mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau a dulliau i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i bobl. Gwelwyd enghraifft lle roedd gwasanaethau help cynnar wedi galluogi plentyn i aros yn ddiogel gyda'i deulu drwy ddarparu rhaglenni ieuenctid, cymorth ymarferol, a gwasanaeth eirioli mewn modd amserol, gan helpu i sicrhau nad oedd angen rhoi ymyriadau mwy cyfyngol ar waith.

**4.9** Mae gwaith amlasiantaethol yn sicrhau y gellir rhoi dulliau atal ar waith yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cydweithio â phartneriaid iechyd, partneriaid addysg a phartneriaid eraill i ddarparu cymorth ataliol cydlynus. Mae asiantaethau partner yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd. Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau y gellir nodi risgiau yn gynnar a bod teuluoedd yn cael yr help cywir ar yr adeg gywir.

**4.10** Mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y galw ac yn rheoli'r pwysau ar y gwasanaeth yn effeithiol. Mae rheolwyr yn monitro tueddiadau mewn atgyfeiriadau a llwythi achosion, gan addasu adnoddau a'r trefniadau staffio i ddiwallu anghenion newidiol. Ceir tystiolaeth bod cynlluniau wrth gefn ar waith a bod staff yn cael eu defnyddio mewn ffordd hyblyg i ymateb pan fo'r galw ar ei uchaf.

**4.11** Mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau help cynnar ac ymyriadau wedi'u targedu, gan gynnwys cyfarfodydd teulu, gwasanaeth eirioli, a phaneli adnoddau, er mwyn lleihau'r angen am ymyriadau statudol. Mae adborth a roddwyd gan ymarferwyr a phartneriaid mewn grwpiau ffocws yn nodi bod y dulliau hyn yn ymateb i flaenoriaethau lleol a risgiau sy'n codi.

**4.12** Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn cynnal ffocws cryf ar ddysgu o adolygiadau, prosesau sicrhau ansawdd a digwyddiadau critigol. Maent yn rhannu canfyddiadau o archwiliadau a gwaith myfyriol â thimau ac asiantaethau partner

yn rheolaidd gan ddefnyddio'r gwersi hyn i lywio datblygiadau i wasanaethau a gwella ymarfer. Caiff y dulliau ataliol eu hadolygu a'u haddasu'n rheolaidd mewn ymateb i archwiliadau ac adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaethau. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer defnyddio gwaith sicrhau ansawdd i gasglu a dadansoddi data o bob rhan o'r gwasanaeth i lywio'r gwaith o gynllunio adnoddau a datblygu modelau ataliol ymhellach.**

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

**4.13** Mae cynigion help cynnar ar draws gwasanaethau plant yn gryf ar y cyfan, ond mae'r amrywiaeth yn y galw, pwysau o ran capastiti, a rhestrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau ataliol yn effeithio ar gysondeb darpariaeth y tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i atgyfnerthu'r maes hwn, gan gynnwys y gallu i wneud penderfyniadau, i sicrhau bod pob teulu yn cael yr un budd o ymyriadau cynnar ac amserol.**

**Llesiant**

**<u>Cryfderau</u>**

**4.14** Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ym mhob rhan o Wasanaethau Plant Caerffili, gydag ymarferwyr yn dangos cyfrifoldeb clir a gwyliadwriaeth ac yn ymateb i bryderon mewn modd amserol. Mae asesiadau risg cadarn, prosesau rhannu gwybodaeth amlasiantaethol, a chyfarfodydd strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant â phresenoldeb da yn cefnogi cynlluniau diogelwch effeithiol, ymweliadau statudol ac ymyriadau cydlynus. Mae'r awdurdod lleol yn pennu trothwyon diogelu ac yn uwchgyfeirio pryderon mewn ffordd fedrus, gyda phartneriaid iechyd, addysg a'r heddlu yn cyfrannu at asesiadau a gwaith cynllunio.

**4.15** Mae llais y plentyn yn ganolog i arferion diogelu. Mae ymarferwyr yn gwneud ymdrechion pendant i gynnwys plant a phobl ifanc mewn trafodaethau am eu diogelwch a'u llesiant, gan addasu dulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion unigol. Cynigir gwasanaeth eirioli fel mater o drefn, a chaiff plant eu cefnogi i fynegi eu safbwyntiau mewn cyfarfodydd ac adolygiadau. Mae ffocws ar sicrhau bod plant yn deall eu cynlluniau ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

**4.16** Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i hybu llesiant ehangach plant a theuluoedd. Mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o ymyriadau gan gynnwys gwaith uniongyrchol, cymorth therapiwtig, a mynediad at adnoddau cymunedol i helpu plant i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae ffocws ar gynnal cysylltiadau plant â'u teulu, yr ysgol a'r gymuned lle bynnag y bo'n bosibl, ac mae ymarferwyr yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â rhwystrau o ran cyfranogiad a chynhwysiant. Nifer bach iawn o achosion a welwyd lle roedd

oedi y gellid bod wedi'i osgoi wrth gynllunio sefydlogrwydd. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y systemau sydd ar waith i nodi achosion o oedi a gadael i bethau lithro yn golygu bod pob plentyn yn cael sefydlogrwydd mewn modd amserol a diogel.**

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

**4.17** Ceir tystiolaeth nad yw trafodaethau strategaeth ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol bob amser wedi cael eu cynnal yn brydlon, gan arwain at oedi wrth sicrhau ymatebion diogelu cydlynus. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi hyn, ac mae camau ar waith i atgyfnerthu prosesau. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i fonitro amseroldeb ac effeithiolrwydd trafodaethau strategaeth ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol er mwyn sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw bryderon diogelu yn ddi-oed.**

**Partneriaeth**

**<u>Cryfderau</u>**

**4.18** Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder amlwg ym mhob rhan o Wasanaethau Plant Caerffili. Mae ymarferwyr a rheolwyr yn dangos ymrwymiad cryf i gydweithio ag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys iechyd, addysg, yr heddlu a'r trydydd sector. Mae cyfarfodydd amlasiantaethol a fforymau cynllunio ar y cyd rheolaidd yn helpu i ddarparu gwasanaethau integredig ac yn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael cymorth cydlynus. Mae adborth gan randdeiliaid ac ymarferwyr o'r arolygon a'r grwpiau ffocws yn nodi cydberthnasau cadarnhaol ac ethos a rennir mewn perthynas â diogelu a hybu llesiant plant.

**4.19** Mae'r awdurdod lleol yn cyfrannu at gytundebau partneriaeth rhanbarthol a chenedlaethol. Mae tystiolaeth bod y gwasanaeth yn cymryd rhan effeithiol yn y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'i is-grwpiau, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael cydnabyddiaeth gan asiantaethau partner am ei ymatebolrwydd, ei natur agored, a'i barodrwydd i rannu gwersi a ddysgwyd. Dywed partneriaid hefyd bod yr awdurdod lleol yn rhannu polisïau a chanllawiau ymarfer newydd mewn ffordd ragweithiol, a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithlon â'r holl asiantaethau er mwyn helpu i wneud penderfyniadau amserol.

**4.20** Mae'r trefniadau gweithio ar y cyd wedi'u hategu gan strwythurau llywodraethu clir a blaenoriaethau a rennir. Mae ymarferwyr a rheolwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gydlynu adnoddau a datblygu datrysiadau ar y cyd i heriau cymhleth, fel digonolrwydd lleoliadau a chymorth i blant ag anghenion ychwanegol. Ceir diwylliant o barch cyffredinol ac ymddiriedaeth broffesiynol, a disgrifiodd partneriaid brosesau cyfathrebu agored a pharodrwydd i herio a dysgu gan ei gilydd. Mae'r dull hwn yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau y gellir cyflawni canlyniadau cynaliadwy o ansawdd uchel i blant a theuluoedd.

**4.21** Caiff hyfforddiant a chyfleoedd datblygu amlasiantaethol eu cynnig fel mater o drefn a cheir lefelau presenoldeb uchel yn y digwyddiadau hyn. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu hyfforddiant ar y cyd ar ddiogelu, ymarfer sy'n ystyriol o drawma, a meysydd allweddol eraill. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth a rennir o rolau a chyfrifoldebau ac yn sicrhau y gall ymarferwyr o bob asiantaeth gydweithio'n effeithiol. Mae adborth gan bartneriaid ac ymarferwyr yn dangos bod y cyfleoedd hyn yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cyfrannu at ymarfer a chanlyniadau gwell.

**4.22** Mae'r awdurdod lleol yn gofyn am adborth gan bartneriaid, plant a theuluoedd mewn ffordd ragweithiol ac yn ymateb i'r adborth hwnnw. Defnyddir dulliau fel arolygon i randdeiliaid, rhwydweithiau rhieni, a fforymau ieuenctid i gasglu barn a llywio datblygiadau i wasanaethau. Mae tystiolaeth o arolygon a grwpiau ffocws yn nodi bod partneriaid yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau, a bod eu cyfraniadau'n cael eu cydnabod wrth lywio blaenoriaethau a darparu gwasanaethau.

**4.23** Mae pwyslais cryf ar ddatrys problemau ar y cyd ac atebolrwydd a rennir. Mae ymarferwyr a rheolwyr yn cydweithio â phartneriaid i fynd i'r afael â heriau fel digonolrwydd lleoliadau, cymorth i blant ag anghenion cymhleth, a throsglwyddo rhwng gwasanaethau. Mae cyfarfodydd adolygu a phaneli ar y cyd rheolaidd yn helpu i alinio blaenoriaethau a datblygu datrysiadau integredig. Lle ceir rhwystrau, fel lefelau presenoldeb amrywiol mewn cyfarfodydd partneriaeth neu wahaniaethau o ran trothwyon asiantaethau, mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i sgwrsio'n agored ac i sicrhau gwelliant parhaus.

**4.24** Mae'r broses rhannu gwybodaeth a chyfathrebu rhwng asiantaethau yn effeithiol ar y cyfan ac yn cefnogi prosesau ar gyfer ymateb i anghenion plant a theuluoedd mewn modd amserol a chydlynus. Dywed partneriaid bod yr awdurdod lleol yn ymateb yn dda i geisiadau am wybodaeth a bod protocolau clir ar waith ar gyfer rhannu pryderon diogelu a llesiant. Mae gwaith yn mynd rhagddo i atgyfnerthu'r trefniadau rhannu gwybodaeth ymhellach, yn benodol mewn perthynas ag achosion cymhleth a throsglwyddo rhwng gwasanaethau.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

**4.25** Mae partneriaid perthnasol yn bresennol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd amddiffyn plant amlasiantaethol, ond mae materion yn ymwneud â chapasiti o ran partneriaid iechyd a'r heddlu, a lefelau ymgysylltu amrywiol gan ysgolion, yn effeithio ar gysondeb. Mae adborth gan randdeiliaid a grwpiau ffocws yn nodi nad yw partneriaid bob amser yn bresennol yn y cyfarfodydd neu nad ydynt bob amser yn cyfrannu fel sydd ei angen. **Dylai'r awdurdod lleol**

**weithio gyda phartneriaid i atgyfnerthu prosesau ymgysylltu cyson fel bod pob asiantaeth yn chwarae rhan lawn wrth ddarparu ac adolygu gwasanaethau a monitro cynlluniau diogelwch**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd tystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 25 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 21 o gofnodion gofal cymdeithasol plant ac olrhain cofnodion pedwar plentyn.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau â saith person sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau â 56 o gyflogeion yr awdurdod lleol. Roedd y rhain yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol a phennaeth gwasanaeth.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad sicrwydd hwn yn Gymraeg.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gamau gweithredu addas, mae risg y gall yr awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodiad y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

## Atodiad 2

### Tabl Diffinio Meintiau

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |